

7. Modrwy'r Gaethferch

CYMERIADAU

- RUTH – caethferch
- REUBEN – bugail ifanc
- LLETYWR
- GWRAIG Y LLETYWR
- TIBERIWS
- SETH
- MAIR
- JOSEFF
- GABRIEL
- STORÏWR
- 2IL, 3YDD a 4YDD BUGAIL

CYMERIADAU ERAILL A ALLAI GYMRYD RHAN

- ANGYLION
- Y DOETHION
- BACHGEN A'I DDRWM
- PLANT

STORÏWR: Dyma gyfnod Herod Frenin. Mae'n teyrnasu ar wlad Jwdea, gwlad sydd o dan reolaeth y Rhufeiniaid. Y mae'r ymerawdwr Awgwstws yn fwy awyddus na'i ragflaenwyr i ddod i wybod faint o bobl sydd yng ngofal ymerodraeth Rhufain. Mae ei ymerodraeth yn ymestyn o anialwch Arabia i'r de o Jwdea, a thua'r gorllewin ar draws gogledd Affrica hyd at Fôr yr Iwerydd, a thros fforestydd Ewrop i fyny at Ynys Prydain. Gan hynny, bydd Awgwstws yn trefnu rhestr o'r pobloedd sydd yng ngwahanol fannau'r byd o fewn yr ymerodraeth Rufeinig. Yn awr, mae'n amser cofrestru trigolion Palestina. Dywedwyd wrthyn nhw eisoes am fynd yn ôl i bentrefi a threfi eu genedigaeth. Mae rhai sydd wedi eu geni ym Methlehem ond sydd â'u cartrefi mewn man arall wedi dychwelyd i Fethlehem. Mae hyn yn creu cryn gyffro a gweithgarwch yn y dref.

GOLYGFA 1

Stryd neu iard fechan ym Methlehem. Mae RUTH yn sgubo'r llawr. Mae cadwyn ac arni fodrwy bres o gwmpas ei gwddf. Merch o'r Aifft ydy hi. Mae'n canu iddi'i hun. Daw REUBEN y bugail ifanc i mewn.

RUTH: Helô Reuben. Rydw i'n falch dy fod wedi dod. Mae gen i newyddion bendigedig i ti, rydw i'n teimlo mor hapus nes mod i eisiau deud wrth bawb. Rydw i'n rhydd rŵan. Mae fy meistr wedi rhoi fy rhyddid i mi bore 'ma. Fy rhyddid! Tydi o'n rhyfeddol?

REUBEN: Wel Ruth, mae hyn yn newyddion gwych. Rwyf i mor falch drosot ti. Ddylet ti ddim fod wedi bod yn gaethferch beth bynnag. Cefaiast dy eni'n rhydd.

RUTH: O, dwi'n gwybod hynny. Ond does dim ots rŵan gan fy mod i'n rhydd. Doedd 'nhad ddim eisiau fy ngwerthu pan oeddwn i'n ddwy oed ond fe fyddwn i wedi llwgu pe bawn i wedi cael fy nghadw efo'r gweddill ohonyn nhw. Dim ond eisiau i mi fod yn ddiogel oedd o.

REUBEN: Yn ddiogel! Sut all merch fach fod yn ddiogel os ydy hi'n cael ei gwerthu i gaethwasanaeth. Roedd gen ti feistr creulon Ruth. Rydw i wedi gweld olion chwip ar dy gefn sawl tro.

RUTH: O, paid â'm hatgoffa. Mae o i gyd drosodd rŵan. Dwi'n rhydd i wneud fel y mynna i, fydda i byth yn gaethferch i neb na dim byd o hyn ymlaen. Mae Aaron yn deud cyn belled ag y cadwa i fy modrwy caethferch mi fydda i'n rhydd. Felly, fe gadwa i hi o gwmpas fy ngwddf i f'atgoffa fy hun.

REUBEN: Mae hynna'n swnio'n od. Faswn i ddim yn meddwl fod yna fawr o arwyddocâd i fodrwy.

RUTH: Mae yna. Ti'n gweld doedd fy nhad nac Aaron ddim yn gallu ysgrifennu gweithredoedd fy ngwerthiant, felly cafodd y fodrwy statws ei thynnu oddi ar fy mraich a'i rhoi i Aaron. Cyn belled â bod y fodrwy ganddo fo roeddwn i'n gaethferch iddo. Ond rŵan mae hi gen i, felly rydw i'n rhydd. RHYDD, RHYDD!

REUBEN: [*Yn chwerrthin*] A be petait ti'n ei rhoi i mi?

RUTH: [*Yn chwerrthin*] O, yna byswn yn gaethferch i ti ond paid â phoeni, wna i byth roi hon i neb. Fy eiddo i ydy hi, fy eiddo i am byth.

Ond be am dy ddefaid Reuben? Fydda hi ddim yn well i ti fynd atyn nhw? Bydd Tiberiws a'r bugeiliaid eraill yn aros.

REUBEN: Byddan! Byddan! Ond be wyt ti am ei wneud rŵan? I ble'r ei di?

RUTH: Mae Samiwel wedi deud y ca i fod yn is-forwyn iddo yn y llety am dipyn; mae gen i stafell gysgu yng nghefn y stabl, felly fe fydda i'n iawn. Fe fydd gen i stafell iawn yn y llety ar ôl i'r ymwelwyr adael. Ond mae'r dref mor llawn ar y funud, does yna ddim lle o gwbl.

REUBEN: Wel dwi'n falch nad wyt ti'n mynd ymhell. Efallai y gwela i di fory cyn i mi fynd i'r siop.

[*Mae REUBEN yn gadael y llwyfan a daw GWRAIG Y LLETYWR i mewn*]

GWRAIG: Tyrd yn dy flaen ferch. Mae gynnon ni waith i'w wneud. Mae mwy a mwy o ymwelwyr yn dod i'r dref ac mae cymaint i'w wneud. Mae'r llety'n llawn beth bynnag ond mae'n gas gen i droi pobl i ffwrdd. Ond dyna fo, does gynnon ni fawr i'w gynnig rŵan.

[*Mae'r ddwy yn gadael y llwyfan*]

CÂN: 'Carol yr Asyn Bach', *Cylchau'r Nadolig*.

[*Fel y mae MAIR a JOSEFF yn cerdded yn araf tua'r stabl, un ai o ochr y llwyfan neu o gefn y neuadd*]

MAIR: O, Joseff alla i ddim mynd dim pellach. Allwn ni aros a gorffwyso os gweli di'n dda?

JOSEFF: Gallwn Mair, dyma lety. Siawns fod yna le yma er nad oedd lle yn y lleill. Bydd yn ddewr, fydd hi ddim llawer hirach cyn y cawn ni fwyd a thipyn o gysgod, ac fe gei dithau seibiant bach.

MAIR: Roedd pob man [*daw RUTH i mewn*] yn llawn, be petai hwn hefyd? O, Joseff. Bu'r daith yn un mor bell!

JOSEFF: Dwi'n gwybod. Fe a' i i holi yma. [*Daw'r LLETYWR a'i WRAIG i mewn*] Os gwelwch chi'n dda syr, mae angen cysgod dros nos arnon ni. Mae fy ngwraig wedi blino ac mae angen bwyd a gorffwys arni hi.

LLETYWR: Mae'n ddrwg gen i syr, mae'r llety'n llawn, rydan ni hyd yn oed yn defnyddio ystafelloedd y gweision. Mae yna lefydd eraill i lawr y ffordd.

JOSEFF: Rydan ni wedi holi ym mhob man, fydd holi ymhellach o ddim budd i ni. Maen nhw'n orlawn. Tyrd Mair, rhaid i ni ...

GWRAIG: Samiwel, mae'r wraig yma'n agos iawn i'w hamser, mae hi'n edrych yn flinedig dros ben. Be allwn ni'i wneud?

LLETYWR: Allwn ni wneud dim Martha. Dim.

[*Maen nhw'n troi i ffordd*]

RUTH: Esgusodwch fi syr, fe allen nhw rannu'r stabl.

LLETYWR: Wel, wel, gallen siŵr. Hynny ydy os nad ydach chi'n meindio syr?

MAIR: Na, na. Byddai hynny'n iawn. Diolch o galon.

JOSEFF: Byddai hynny'n dderbyniol. Diolch yn fawr.

RUTH: Fe ddangosa i'r ffordd i chi.

[*Mae RUTH, MAIR a JOSEFF yn mynd i'r stabl. Daw RUTH yn ei hôl i ochr arall y llwyfan*]

[*Os perfformir y ddrama mewn dwy olygfa yna gall MAIR, JOSEFF a RUTH adael y llwyfan a chau'r llenni – yna'r llenni i agor wedyn i olygfa'r stabl. Os mai un olygfa sydd i fod yna maen nhw'n cymryd eu lle yn narn y stabl sydd ar y llwyfan*]

GOLYGFA 2

Yn y stabl

STORİWR: A thithau Bethlehem, tir Jwda, nid lleiaf wyt ymhlith tywysogion Jwda: canys ohonot ti y daw Tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel. Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef, Immanuel.

[*O olwg y stabl*]

[*Ochr y bryn – perfformir ar ddarn arbennig o'r llwyfan neu o flaen y llenni*]

4YDD BUGAIL: I feddwl fod Bethlehem mor llawn o bobl mae'n dref dawel iawn heno.

3YDD BUGAIL: Ydy wir, mae'n wirioneddol ddistaw i fyny yma heno 'ma. [*Daw TIBERIWS a REUBEN i mewn*] Ydy'r defaid yn iawn, Tiberiws?

TIBERIWS: Ydyn, maen nhw'n wedi setlo'n iawn. Does fawr i mi a'r un ifanc i'w wneud heno 'ma. Tydi hi ddim yn edrych fel noson am fleiddiaid.

SETH: Wn i ddim, yn aml iawn bydd pethau od iawn yn digwydd ar nosweithiau tawel.

3YDD BUGAIL: Cer o 'na. Rwyd ti bob amser yn deud fod pethau am ddigwydd ond does dim byd byth yn digwydd.

REUBEN: Be wyt ti'n feddwl Seth?

SETH: Tydw i ddim am ddeud ond cofia di fy ngeiriau lanc a chadw'n agos at yr hen Seth. Ai ffon fugail newydd sydd gen ti?

REUBEN: Ie, deudodd Tiberiws fy mod i'n haeddu un. Rydw i wedi bod eisiau un ers blynyddoedd. Fe edrycha i ar ei hôl.

TIBERIWS: Ie, gwna hynny lanc, chei di 'run arall yn ystod dy oes!

SETH: Shhhh, gwrandewch.

CÂN: Yr angylion yn canu'n ddistaw, 'Clywch y ddwyfol sanctaidd gân', *Clychau'r Nadolig*.

4YDD BUGAIL: Chlywa i ddim byd.

3YDD BUGAIL: Na finna chwaith.

SETH: Shhh. [*Maen nhw i gyd yn gwranddo; cana'r angylion yn uwch*]

TIBERIWS: Canu!

REUBEN: Be sy'n bod Tiberiws?

[*Cân yr ANGYLION yn cryfhau wrth iddynt ddod i'r llwyfan. Mae'r BUGEILIAID yn crymu pen neu'n penlinio*]

GABRIEL: Nac ofnwch: canys wele, yr wyf fi yn mynegi i chi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl: Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn ydy Crist yr Arglwydd. A hyn fydd arwydd i chwi; chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi yn y preseb.

STORÏWR: Ac yn ddisymwth yr oedd gyda'r angel liaws olau nefol, yn moliannu Duw, ac yn dywedyd: "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddyinion ewylllys da."

[Mae'r ANGYLION yn cymryd eu lle o gwmpas y stabl. Eistedda'r BUGEILIAID gan edrych o'u cwmpas]

REUBEN: Maen nhw wedi mynd. Pwy oedden nhw, Seth?

SETH: Be ddyweda i? Negeswyr Duw oedden nhw.

3YDD BUGAIL: Wyt ti'n siŵr Seth?

SETH: Wel ydw siŵr, dewch ymlaen.

4YDD BUGAIL: I ble?

SETH: I Fethlehem wrth gwrs, rhaid i ni weld yr hyn sydd wedi digwydd yno.

TIBERIWS: Ie, ie, wrth gwrs, dewch ymlaen, ond be am y defaid?

2IL FUGAIL: Peidiwch â phoeni amdanyn nhw, fe fyddan nhw'n iawn.

[Mae'r BUGEILIAID yn gadael y llwyfan. Daw'r DOETHION i mewn dan ganu 'Tri ŷm Ni', Clychau'r Nadolig. Gadawant hwythau'r llwyfan]

Golygfa'r stabl. Eistedda MAIR wrth y preseb, mae JOSEFF gerllaw, a'r ANGYLION yn y cefn.

MAIR: 'Drycha Joseff, mae o'n gwenu. Mae o'n un mor fach ac eiddil.

JOSEFF: Mae'n noson mor dawel a llonydd ac eto mae rhyw gyffro yn yr awyr fel petai'r byd i gyd yn gwybod am y baban.

TIBERIWS: Edrychwch, dyma'r baban. Y brenin, ein gwaredwr.

SETH: Ymgrymwn, addolwn a rhoddwn iddo ein hanrhegion.

REUBEN: Gogoniant i Dduw. [Penliniant]

[Daw'r DOETHION i mewn gyda'u hanrhegion. Daw'r BACHGEN BACH â'r drwm i mewn dan ganu. Daw'r LLETYWR a'i WRAIG i mewn gyda'u hanrhegion. Maen nhw'n mynd i'w llefydd ar y llwyfan]

RUTH: [Sydd hyd yn hyn wedi bod yn gwyllo'r digwyddiadau]

Wel, am olygfa sanctaidd! Mae'r brenin bychan yn gwenu. Mae pawb wedi rhoi anrheg iddo, rhoddodd Reuben ei ffon fugail newydd iddo fo. Be alla i ei roi?

Fe hoffwn i fynd yn agosach ond does gen i ddim anrheg. Does gen i ddim i'w roi iddo. [Petruso am funud] Fy modrwy! Mae rhoi'r fodrwy yn golygu caethwasanaeth ond pa feistr sydd yn well na'r Arglwydd Iesu. Rwy'n rhoi fy mywyd iddo, fe wna i ei wasanaethu drwy fy oes.

CAROL I'R

GYNULLEIDFA: 'O! Deuwch ffyddloniaid', *Caneuon Ffydd*.

DIWEDD